# Caneuon - Carol i Gymru

## 1. Carol i Gymru

Dewch i ganu!
Dewch i ddathlu!
Dewch i ddathlu hwyl yr wyl gyda ni.
Ewch amdani
Croeso i'n sioe ni
Dewch i ganu
Carol i Gymru
Dewch i ddathlu
Dewch i joio gyda ni!

## 2. Y Neges Fawr

Fe ddaethom o'r nefoedd (clicio bysedd)
Fe ddaethom o'r nefoedd, wel do!
Fe ddaethom ni o'r nefoedd er mwyn rhannu yr hedd
Ie, ie, ie.

Wel Duw ei hun a ddywedodd wrthom ni,
"Nawr ewch i'r ddaear yn syth da chi!"
Ar fwrlwm y daethom i rannu o'r nen
Am neges y Brenin ym Methlehem

Cytgan
Fe ddaethom o'r nefoedd (clicio bysedd)
Fe ddaethom o'r nefoedd, wel do!
Fe ddaethom ni o'r nefoedd er mwyn rhannu yr hedd
Ie, ie, ie.

Doedd Herod ddim yn hapus gyda'n neges ni
A daeth cenfigen wrth ei chlywed hi
Efe oedd y Brenin - ac nid yr un bach
Dechreuodd ein neges achosi strach

Cytgan
Fe ddaethom o'r nefoedd (clicio bysedd)
Fe ddaethom o'r nefoedd, wel do!
Fe ddaethom ni o'r nefoedd er mwyn rhannu yr hedd
Ie, ie, ie.

Y seren a ddisgleiriodd yn fry y nen
Ac uwch ein pennau roedd 'na olau mawr wen
A gwyrth y geni a'r dathlu di ri
A'r babi yn frenin arna ti, ti ti!!

Cytgan
Fe ddaethom o'r nefoedd (clicio bysedd)
Fe ddaethom o'r nefoedd, wel do!
Fe ddaethom ni o'r nefoedd er mwyn rhannu yr hedd
Ie, ie, ie.
Ie, ie, ie.

## 3. Sêr

Ni yw’r bugeiliaid yn gwarchod dros y praidd
Amddiffyn y defaid, yn gweithio yn ddibaid
Fe glywsom ni yr Angel a’i neges or nef
A dyma ni ar ein ffordd i Fethlehem dref

Cytgan:
Wele’r Seren yn disgleirio yn y nen
A’i dyma’r arwydd o obaith uwch ein pen?
Seren wen i’n hebrwng drwy y nos
Yn goleuo’r llwybr - yn goleuo’r rhos
Wele’r Seren yn disgleirio yn y nen

Dwedodd yr Angel taw’r brenin ydoedd ef
Yn blentyn bach mewn stabal ym Mhethlem Dref
Fe glysom fod hen Herod llawn casineb a dig
Yn erbyn y baban bach sy’n cysgu’n ei grud

Cytgan:
Wele’r Seren yn disgleirio yn y nen
A’i dyma’r arwydd o obaith uwch ein pen?
Seren wen i’n hebrwng drwy y nos
Yn goleuo’r llwybr - yn goleuo’r rhos
Wele’r Seren yn disgleirio yn y nen
Wele’r Seren yn disgleirio yn y nen - Ie

## 4. Aur, Thus a Myr

Doethion gyda rhoddion ydym ni
Yn teithio’r bydysawd jyst ni’n tri
Yn dilyn y seren fry’n y nen
I’n tywys i‘r Brenin newydd!

Canu:

O, fe ddown gyda’r aur, thus a myrr,
Anrhegion i’r baban bach
Ein cyffro yn dilyn bob cam o’r ffordd,
Ar ein llwybr i Fethlehem.

Fe glysom bod Herod yn wyllt ei ben
Wrth glywed am yr hanes di ri
Fe oedd yr unig frenin medd ef
Cyn ganed y Baban Iesu

Canu:

O, fe ddown gyda’r aur, thus a myrr,
Anrhegion i’r baban bach
Ein cyffro yn dilyn bob cam o’r ffordd,
Ar ein llwybr i Fethlehem.

O, fe ddown gyda’r aur, thus a myrr,
Anrhegion i’r baban bach
Ein cyffro yn dilyn bob cam o’r ffordd,
Ar ein llwybr i Fethlehem.

# 5. Yr Anrheg Orau

Gofynnon am lety - roedd pob man yn llawn
'Rôl taith didrugaredd
Yr asyn a gerddodd - ymlaen ac ymlaen
Yn cario ein brenin - ymlaen ac ymlaen
Gofynnon am lety - roedd pob man yn llawn.

Cytgan
Fe oedd yr anrheg - y gorau erioed
Brenin bach llwm yn y preseb
Gwyrth a rhyfeddod - ein babi bach clud
Yr anrheg orau a ddaeth i'r byd

Fe ddaeth y bugeiliaid i weled ei wên
A'r doethion yn dilyn
Dilynon y seren at Fethlehem dref
R'ol derbyn y neges - at Fethlehem dref
Fe ddaeth y bugeiliaid i weled ei wên

Cytgan
Fe oedd yr anrheg - y gorau erioed
Brenin bach llwm yn y preseb
Gwrth a rhyfeddod - ein babi bach clud
Yr anrheg orau a ddaeth i'r byd

# 6. Gyda'n Gilydd

Pwy sy'n cofio'r stori?
Y stori hyna' rioed
Pwy sy'n cofio'r seren a'r bugeiliad llwm dan droed?
Pwy glywodd am yr angel yn rhannu'r neges glir?
Am y brenin newydd -
Fe ddaeth heddwch i'r byd.

Cracyrs, twrci, pwdin
Anrhegion dan y coed
Plant dros Gymru gyfan yn fwy hapus nag erioed
Yn chwarae gemau newydd a threulio amser aur
Cofio am yr Iesu
Fu'n gorwedd yn y gwair

Cytgan;
Gyda'n gilydd fe ddathlwn y Nadolig
Teulu mawr yn dod ynghyd-
Teulu hapus, teulu clud;
Gyda'n gilydd - dymunwn 'dolig Llawen
A blwyddyn newydd dda i chi gyd!

Dyma hi'r Nadolig
Yn barod ger y drws
Dathlu gyda'n ffrindiau a chofio'r neges dlws
Pob teulu yn ymgunnull i rannu 'tgofion clud
A chofio am y noson
Pan ddaeth heddwch i'r byd.

Cytgan;
Gyda'n gilydd fe ddathlwn y Nadolig
Teulu mawr yn dod ynghyd-
Teulu hapus, teulu clud;
Gyda'n gilydd - dymunwn 'dolig Llawen
A blwyddyn newydd dda i chi gyd!

Gyda'n gilydd fe ddathlwn y Nadolig
Teulu mawr yn dod ynghyd-
Teulu hapus, teulu clud;
Gyda'n gilydd - dymunwn 'dolig Llawen

A blwyddyn newydd dda i chi gyd!

A blwyddyn newydd dda i chi gyd!